Y Gwir Anrhydeddus Karen Bradley AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
100 Parliament Street,
London,
SW1A 2BQ

16 Chwefror 2017

Annwyl Weinidog

**Y Darlun Mawr – Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru**

Byddwch yn ymwybodol bod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar sy'n nodi ein safbwyntiau cychwynnol ynglŷn â darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, ac rydym wedi cynnwys isod y rhai sy'n berthnasol i Lywodraeth y DU.

> '**Argymhelliad 6**. Rydym yn argymell na ddylai fod unrhyw doriadau pellach i gyllid S4C hyd nes bod yr adolygiad arfaethedig wedi'i gwblhau a bod pawb sydd â rhan yn nyfodol S4C wedi cael cyfle i fyfyrio ar ei gasgliadau.'

> '**Argymhelliad 8**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU ac Ofcom yn ystyried diwygio Cod Ymarfer Ofcom ar gyfer darparwyr Canllaw Rhaglenni Electronig i sicrhau bod S4C yn amlwg yng Nghymru yn y Canllawiau Rhaglenni Electronig a chymwysiadau teledu deallus, fel gwasanaeth i-player y BBC.'

Er gwybodaeth, rydym hefyd wedi gwneud yr argymhelliad canlynol i Lywodraeth Cymru.

> '**Argymhelliad 5**. Rydym yn argymell na ddylai Llywodraeth Cymru roi ei chaniatâd i benodi aelod Bwrdd y BBC ar gyfer Cymru hyd nes y caiff y Pwyllgor gyfle i gynnal gwrandawiad cyn penodi gydag enwebai Llywodraeth y DU ar gyfer y swydd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r argymhellion hyn erbyn diwedd y dydd ar 13 Mawrth 2017, mewn pryd ar gyfer dadl y Cynulliad, ar yr adroddiad ac ar ymateb Llywodraeth Cymru iddo.

Yn gywir

**Bethan Jenkins AC**

**Cadeirydd**